# SL(6)004 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol");
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr"); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd neu diriogaethau nad ydynt yn esempt ynysu am gyfnod sydd i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gyflwyno system goleuadau traffig tair lefel i sgorio risg ar gyfer gwledydd a thiriogaethau a gofynion ynysu a phrofi cysylltiedig ar gyfer pobl sy'n cyrraedd o'r cyrchfannau gwahanol hynny.

Ar ôl ychwanegu Maldives, Nepal a Thwrci at y rhestr goch am 04:00 o'r gloch ddydd Mercher 12 Mai, mae'r gwledydd ar y rhestr goch a'r rhestr oren wedi aros yn ddigyfnewid, felly hefyd y gofynion ar gyfer cwarantin a reolir (lle bo angen) ac o ran ynysu a phrofi cyn ac ar ôl cyrraedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn creu categori rhestr werdd newydd ar gyfer gwledydd a thiriogaethau lle bydd gofyn cael prawf cyn ymadael cyn teithio, llenwi ffurflen lleoli teithwyr a chael un prawf ar ôl cyrraedd ar Ddiwrnod 2 neu cyn hynny ond ni fydd angen ynysu.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Awstralia, Brunei, Ynysoedd Falkland, Ynysoedd Faroe, Gibraltar, Gwlad yr Iâ, Israel, Seland Newydd, Portiwgal, Singapore, De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De a St Helena, Tristan de Cunha, Ynys Ascension at y rhestr werdd o wledydd a thiriogaethau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau cysylltiedig i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd fel ei bod yn ofynnol i weithredwyr gwybodaeth gwasanaethau perthnasol ddiweddaru'r wybodaeth y maent yn ei darparu i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin er mwyn i'r wybodaeth gynnwys trefniadau'r rhestr werdd.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr i adlewyrchu'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd gan Ran 4 o'r Rheoliadau hyn sy'n nodi'r wybodaeth benodol y mae'n rhaid i weithredwyr ei darparu i deithwyr sy'n dod i mewn i'r DU ynghylch llacio cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at y canllawiau mewn cysylltiad â gofynion iechyd y cyhoedd i bob gwlad yn y DU y mae'n rhaid i unigolyn lynu wrth fynd i mewn i bob gwlad yn y DU.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail*

*ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd ar fyrder, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r*
*Rheoliadau hyn."*

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro**
**27 Mai 2021**